Ewch ati i ddarllen yr adroddiad hwn i weld y gwaith rhagorol sydd wedi digwydd yn y 15 mis diwethaf, yn ogystal â darllen am yr heriau sy'n debygol o fod o'n blaenau yn y dyfodol wrth i ni ymdrechu i wneud yn siŵr ein bod yn gallu parhau â'n hymdrechion mawr eu hangen i gefnogi'r cŵn sydd taer angen ein cymorth.

Tim Doyle


Prif Weithredwr, Achub Milgwn Cymru




Cynnwys

Achub, adsefydlu ac ailgartrefu cŵn potsiwr a milgwn	4
Cefnogi'r ymgyrch i roi diwedd ar rasio milgwn yng Nghymru	6
Codi ymwybyddiaeth am y problemau sy'n wynebu milgwn	8
Hyrwyddo cŵn potsiwr a milgwn fel anifeiliaid anwes	9
Codi arian	10
Manwerthu	11
Datblygu sefydliadol	12
Cyllid	14
Sut gallwch chi helpu	16

Achub, adsefydlu ac ailgartrefu cŵn potsiwr a milgwn



Mabwysiadau yn ôl brîd



Ffynhonnell y cŵn a dderbyniwn

Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd nifer fawr iawn o geisiadau gan bobl i ildio eu cŵn yn ogystal â'n mewnlfif arferol o gŵn yn syth o'r diwydiant rasio. Rydym yn parhau i gymhwyso ein hegwyddorion o flaenoriaethu'r cŵn hynny sydd â'r anghenion mwyaf taer, hyd yn oed os yw'n golygu y gallent fod yn gostus neu'n anodd eu hailgartrefu.



- **Derbyniom 165 o gŵn yn y cyfnod hwn.**
 - Cafwyd nifer cynyddol o gŵn yn dod atom o Stadiwm y Dyffryn drwy gyswllt canolog, yn hytrach nag yn uniongyrchol.
- **Llwyddom i gael 121 o gŵn wedi'u mabwysiadu yn ystod y cyfnod hwn, a rhoi dau gi arall mewn cartref maeth parhaol.**
 - Er bod hyn wedi yn welliant bach ar ein cyfradd ailgartrefu ar gyfer y llynedd, rydym yn dal i fod y tu ôl i'n targed presennol o 140 o gŵn y flwyddyn.
- **Ein cyfradd dychwelyd oedd tua 14%.**
 - Mae hwn yn welliant ar ein cyfradd flaenorol o 17.3% ac yn llawer is na'r gyfradd uchaf a ganiateir o 20%, yn unol â safonau'r sector.
- **Yn anffodus, bu'n rhaid i ni roi chwech o gŵn i gysgu yn ystod y cyfnod hwn.**
 - Roedd 3 ohonynt yn gŵn maeth hirdymor, a hwythau wedi heneiddio a'u hiechyd wedi dirywio.
 - Roedd y 3 arall yn gŵn a ddaeth i'n gofal gyda chymhlethdodau iechyd difrifol.

Rydym wedi dal ati i weithio yn ôl ein hethos o achub a helpu'r cŵn hynny sydd â'r angen mwyaf a'r angen mwyaf dwys. Mae hyn yn golygu nad oes gennym y gyfradd brosesu uchaf bob amser ar gyfer mudiad o'n maint ni, fodd bynnag, mae'r effaith gadarnhaol a gawn ar ein cŵn ar flaen y gad yn y sector. Nid ydym yn gosod unrhyw derfynau llym ar yr hyn a wnawn dros y cŵn yn ein gofal er mwyn eu hadsefydlu ar gyfer bywyd mewn cartref, a dyma'r hyn sy'n unigryw am Achub Milgwn Cymru.

Yn ystod y cyfnod hwn, dyma rai o'r enghreifftiau o gyflyrau yr ydym wedi ariannu diagnosis ac/neu driniaeth ar eu cyfer:

- **Anafiadau cyhyrsgerbydol niferus, yn cynnwys toriadau cymhleth**
- **Cyflyrau cronig heb eu trin fel pwysedd gwaed uchel a murmur y galon**
- **Dallineb a nam ar y golwg**
- **Anafiadau a salwch acíwt fel trawma, llosgiadau a heintiau**

Mae'r cŵn sydd yn ein gofal, boed yn ein canolfan ailgartrefu neu mewn cartrefi maeth, yn cael y lles gorau posibl. Mae ein Fframwaith Lles yn llywodraethu popeth a wnawn gyda'n cŵn, o'u derbyn trwy eu hadsefydlu i'w hailgartrefu a hyd yn oed cefnogaeth ar ôl mabwysiadu. Datblygwyd y Fframwaith o gyfuniad o safonau gweithredu'r Association of Dogs and Cats Homes a'n gwybodaeth arbenigol ein hunain. Y Fframwaith hwn yw prif ddogfen Achub Milgwn Cymru ar gyfer pob maes o'n gwaith achub, adsefydlu ac ailgartrefu, ac rydym yn gwirio ein perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y safonau sydd ynddo.

Gan fod costau wedi cynyddu'n sylweddol, bu'n rhaid gohirio cynlluniau blaenorol i ailadeiladu'n llwyr ein canolfan ailgartrefu; serch hynny, ddechrau 2025 cymeradwyodd y Bwrdd gynrig llai i ailadeiladu rhannau hynaf ein hystâd cŵn i wneud yn siŵr y gallwn barhau i ddarparu'r llety gorau posibl i'n milgwn a'n cŵn. Mae gwaith ar y gweill bellach i gael caniatâd cynllunio cyn chwilio am ddyfynbrisiau manwl ar gyfer cost lawn yr adeiladu. Nid oedd y gwaith a wnaed ar gyfer y prosiect blaenorol yn ofer, gan fod llawer ohono wedi'i ddefnyddio yn ein cynlluniau diwygiedig ac wedi rhoi modd i ni sicrhau cyfyngu cymaint â bo modd ar unrhyw gostau ychwanegol. Ar ôl i ni gael costau manwl, byddwn yn gwneud cais am gyllid grant i dalu'r rhan fwyaf o gost y prosiect. Mae'n bwysig ein bod yn gallu bwrw ymlaen â hyn gan fod rhan hynaf ein llety cŵn yn cyrraedd diwedd ei oes.



Gellir priodoli'r arafu yn y nifer sy'n mabwysiadu cŵn yn y cyfnod hwn i nifer o ffactorau. Efallai mai'r mwyaf amlwg yw effaith yr argyfwng costau byw ar deuluoedd yn mabwysiadu anifeiliaid anwes. Mae llai o bobl yn ystyried mabwysiadu anifail anwes pan fydd cyllid yn dynn a hyd yn oed os ydynt, maent yn llai tebygol o ddewis ci mwy o faint fel milgi neu gi potsiwr. Yn ogystal â'r ystyriaethau ariannol mae cost biliau milfeddygol ac yswiriant wedi codi'n gyflym, yn sgil mwyfwy o'r sector milfeddygol yn mynd yn gorfforaethol. Mae hyn hefyd yn gwneud pobl yn fwy gofalus o fabwysiadu ci achub fel milgi, gan eu bod yn poeni am gostau milfeddygol yn y dyfodol a allai ddeillio o effeithiau'r diwydiant rasio ar eu hiechyd.

Er gwaethaf cynlluniau cymorth fel ein rhaglenni Cadw Cŵn mewn Cartref a Banc Bwyd Anifeiliaid Anwes, yn anffodus rydym yn dal i weld cyfradd gymharol uchel o gŵn yn cael eu hildio i'n gofal yn uniongyrchol o gartrefi. Daw'r cŵn hyn â'u heriau eu hunain gan ein bod cyn hynny yn delio'n bennaf â chŵn nad oeddent wedi byw mewn cartref ac a oedd wedi arfer gan mwyaf ag amgylchedd cenel. Gall cŵn sydd wedi arfer â chartref fynd i deimlo straen mawr pan gânt eu symud yn ôl i genel yn sydyn, ac mae ein tîm o staff a gwirfoddolwyr yn cymryd gofal mawr i wneud y newid mor llyfn a di-straen â phosibl i'r cŵn hynny.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2025, buan y bydd ein prosiect ailgartrefu blaenllaw yn barod, sef Prosiect GELERT. Drwy hwn byddwn yn araf gyflwyno (rhanbarth wrth ranbarth) rwydwaith maethu cenedlaethol ledled Cymru ar gyfer milgwn a chŵn potsiwr. Nid yn unig y bydd hyn yn gwella ein capasiti'n fawr, bydd hefyd yn ehangu ein cyrhaeddiad daearyddol ac yn sicrhau, lle bynnag yr ydych yng Nghymru, bod milgi neu gi potsiwr yn barod i'w fabwysiadu yn eich ymyl.



Cefnogi'r ymgyrch i roi diwedd ar rasio milgwn yng Nghymru





Y tu allan i'r Senedd gyda'r gynghrair #CutTheChase ac ASau cefnogol. Mae pob un o'r 359 o goleri gwag yn cynrychioli milgi a fu farw yn 2023 o ganlyniad i fod yn rhan o'r diwydiant rasio.

Yn unol â'n cenhadaeth, mae llawer o'n gwaith yn y maes hwn wedi cefnogi'r ymgyrch fel aelod o'r glymblaid #CutTheChase sy'n cynnwys Achub Milgwn Cymru, Blue Cross, Dogs Trust, Hope Rescue a'r RSPCA i alw am ddiwedd ar rasio milgwn yng Nghymru.

Gan mai ni yw aelod lleiaf y glymblaid, ein rôl yn bennaf fu darparu'r manylion bychain a'r wybodaeth leol na fyddai rhai o'r sefydliadau mwy o faint wedi gallu cael gafael arnynt fel arall. Efallai mai'r peth pwysicaf yn y maes hwn fu ein gwaith a wnaed yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr dan gyfarwyddyd ein pwyllgor Hyrwyddo ac Ymgyrchoedd.

Ymhlith ein tîm o wirfoddolwyr mae gennym academyddion, llawfeddygon milfeddygol a dadansoddwyr data ymhlith eraill. Mae'r gwaith a wnaed ganddynt i fonitro, cofnodi a dadansoddi pob agwedd ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y byd rasio milgwn yng Nghymru wedi bod yn allweddol i'r mudiad ehangach, a chredir mai dyma'r dadansoddiad ystadegol annibynnol mwyaf manwl a gynhaliwyd erioed o un trac milgwn yn y DU.

Roedd ansawdd a chywirdeb y data hwn yn golygu y gellid ei ddefnyddio i roi gwybodaeth i'r bobl allweddol hynny sy'n gwneud penderfyniadau. Roedd yr arbenigedd a'r wybodaeth ar lawr gwlad a ddarparwyd gennym ynghyd ag adnoddau proffesiynol y mudiadau mwy o faint yn y glymblaid yn fformiwla fuddugol a wnaeth wir ddangos gweithio mewn clymblaid ar ei orau yn y sector lles anifeiliaid.

Ym mis Chwefror 2025 cyhoeddwyd y byddai gwaharddiad ar rasio milgwn yng Nghymru, gan nodi dechrau'r diwedd ar ddegawdau o waith caled gan y rhai a wrthododd aros yn dawel am wir effeithiau rasio ar iechyd a lles y cŵn a ddefnyddir at ddifyrrwch ac elw.

I gefnogi cŵn sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y gwaharddiad arfaethedig, mae Achub Milgwn Cymru wedi bod yn allweddol wrth sefydlu Partneriaeth Milgwn Cymru. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Almost Home Dog Rescue, Battersea Dogs and Cats Home, Blue Cross, Dogs Trust, Forever Hounds Trust, Achub Milgwn Cymru, Ymddiriedolaeth Milgwn De-orllewin Cymru, Hope Rescue a'r RSPCA. Mae'r grŵp wedi cyhoeddi'r datganiad cyhoeddus canlynol:

Fel Partneriaeth Milgwn Cymru, rydym yn ymrwymo i:

- Sicrhau bod lle achub ar gael i bob milgi sy'n gadael rasio yng Nghymru o ganlyniad i roi'r gwaharddiad mewn grym.
- Darparu pwynt cyswllt canolog i berchnogion a hyfforddwyr sydd am adael eu cŵn.
- Sicrhau bod pob ci yn cael cymorth gan filfeddygol a chymorth â'u hymddygiad yn ôl eu hanghenion unigol yn ystod eu hamser yng ngofal sefydliadau achub ac wrth baratoi ar gyfer ailgartrefu, waeth pa fudiad sy'n eu helpu.
- Cydlynu dosbarthu cŵn rhwng pob un o'n mudiadau, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ar y cyd.

Codi ymwybyddiaeth am y problemau sy'n wynebu milgwn

Dirywio mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch rasio milgwn yn ôl sawl arolwg barn a gynhaliwyd yn ystod y 5-10 mlynedd diwethaf. O ganlyniad, mae mwyfwy o reidrwydd i barhau i dynnu sylw at yr hyn sydd wir yn digwydd yn y byd rasio milgwn, a chyflwyno digwyddiadau i'r cyhoedd mewn modd clir a ffeithiol fel tystiolaeth iddynt fedru ffurfio eu barn eu hunain ar rasio milgwn.

Mae lansio ein prosiect 'Greyhound Watch Wales' wedi bod yn allweddol wrth ddangos 'llif byw' i'r cyhoedd a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fel ei gilydd o ddigwyddiadau ar y trac milgwn sydd ar ôl yng Nghymru. Dangosodd tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r prosiect fod milgwn sy'n rasio yng Nghymru o leiaf 1.5 gwaith yn fwy tebygol o gael eu hanafu na'r rhai sy'n rasio ar draws y ffin yn Lloegr.

Rydym wedi ehangu ein cyrhaeddiad a'n dylanwad yn ystod y cyfnod hwn drwy gasglu tystiolaeth, ac mae llawer o'n gwirfoddolwyr wedi bod â rhan sylweddol wrth gysylltu â gwleidyddion, cynghorwyr, elusennau eraill a mwy i sicrhau bod ein neges a'n tystiolaeth yn eu cyrraedd yn effeithiol. Mae'r canlyniadau yr ydym wedi gallu eu cyflawni bron heb unrhyw gost ychwanegol wedi bod yn aruthrol, yn enwedig wrth ystyried faint o arian y mae'r diwydiant rasio yn ei wario ar asiantaethau cysylltiadau cyhoeddus, cyhoeddi a chymeradwyaeth enwogion ymhlith pethau eraill.



Roedd 21% o'r cŵn a ddaeth i'n gofal yn y cyfnod hwn yn gŵn potsiwr, ac er mor wahanol oedd amgylchiadau llawer o'r cŵn hyn, eto yr un mor drasig oedd hanes pob un ohonynt wrth ein cyrraedd. Roedd y rhain yn cynnwys cŵn a oedd wedi dioddef cam-drin neu esgeulustod difrifol fel sy'n gyffredin i gŵn potsiwr, ond nid yw llawer o bobl y tu allan i'r gymuned achub cŵn hela o reidrwydd yn gwybod am hyn.

Fel llawer o achub anifeiliaid, rydym yn aml yn euog o golli newydd-deb yr hyn a wnawn. Rydym mor gyfarwydd â delio ag amgylchiadau trasig a thrawmatig o ddydd i ddydd, nid ydym bob amser yn nodi straeon y byddai ein cefnogwyr a'r cyhoedd ehangach â diddordeb mewn gwybod mwy amdanynt.

Mewn ymdrech i adrodd ein stori'n well, rydym yn gwneud ymdrech ymwybodol i sylwi ar achosion diddorol yn gynnar a bod mor dryloyw â phosibl gyda'n cefnogwyr er mwyn dod â nhw gyda ni ar y daith. Mae cyfarfodydd staff wythnosol ar draws yr elusen bellach yn cynnwys achosion lles amlwg fel eitem sefydlog, felly mae pawb ar draws yr elusen yn ymwybodol o'n gwaith rheng flaen a sut rydym yn cynnwys cefnogwyr. Gall rhai achosion arwain at gynnal apêl am roddion a chefnogaeth, gall eraill fod i godi ymwybyddiaeth yn unig, ond yn aml iawn mae'n gyfuniad o lawer o elfennau gwahanol sy'n dod â chymuned Achub Milgwn Cymru gyfan ynghyd i gefnogi ci sydd ein hangen ni.



Hyrwyddo cŵn potsiwr a milgwn fel anifeiliaid anwes

Efallai mai un o'r rhwystrau pennaf i filgwn ddod yn frîd 'prif ffrwd' i fod yn anifail anwes yw'r nifer o gamdybiaethau sy'n dal i fod ynghylch eu haddasrwydd fel anifeiliaid anwes. Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer ein prosiect maethu arfaethedig, comisiynwyd arolwg barn ym mis Rhagfyr 2024 ledled y DU gyfan yn gofyn cyfres o gwestiynau am ganfyddiad a barn y cyhoedd o fabwysiadu a maethu milgwn. **Y rheswm amlycaf o bell ffordd a nodwyd dros beidio â bod eisau mabwysiadu milgi oedd eu bod "angen gormod o ymarfer corff"**. Mae hyn yn dangos, er bod newid wedi bod yn y canfyddiadau ymhlith y criw o fabwysiadwyr sy'n gyfarwydd â chŵn hela, eto mae bwlch yn parhau rhwng y grŵp hwn a'r cyhoedd ehangach a bydd angen newid eu canfyddiadau os ydym am eu hannog i feddwl am fabwysiadu milgi.

Nid yw cŵn potsiwr yn dioddef o'r un camdybiaethau, er eu bod yn aml yn cael eu grwpio i gategori ehangach 'ci achub' ynghyd â'r stigma sy'n gysylltiedig â hynny. Y ddau rwystr mwyaf i fabwysiadu cŵn achub yw i). y teimlad o orfod 'neidio trwy gylchoedd' i fabwysiadu (nad yw'n digwydd wrth brynu ci bach) a ii). yr argraff fod gan gŵn achub broblemau corfforol ac/neu ymddygiadol difrifol. Mewn ymdrech i fynd i'r afael â hyn, **rydym wedi gwneud llawer o waith i wneud ein proses fabwysiadu yn hyblyg, yn agored, ac mor diddraftherth â phosibl** ar yr un pryd â chadw ein safonau uchel.

Yn ein deunydd hyrwyddo, boed drwy'r cyfryngau cymdeithasol, y cyfryngau traddodiadol, e-bostio uniongyrchol ac ati, rydym yn ymdrechu i gael gwell cydbwysedd rhwng cyfathrebu â phobl 'fewnol' ac 'allanol' i'w hannog i fabwysiadu milgwn. Mae gennym gynlluniau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol sy'n amlinellu'r negeseuon allweddol ar gyfer y ddau grŵp hyn ac mae ein hallbwn ar y cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn fwy cydlynol o ganlyniad. Yn Achub Milgwn Cymru, mae'r cyfryngau yn cael eu rhedeg i raddau helaeth fel 'dyletswydd eilaidd' gan bob adran (h.y. mae staff a gwirfoddolwyr yn cyflawni dyletswyddau'r cyfryngau yn ogystal â'u prif rôl). Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei reoli'n iawn, mae ein Prif Swyddog Gweithredol yn cadeirio fforwm y cyfryngau bob mis i adolygu cynlluniau, asesu targedau a chyhoeddi cyfeiriad. Teimlwn mai dyma'r ffordd orau o reoli ein gweithgarwch hyrwyddo pan na allwn fforddio rôl bwrpasol i gael aelod o staff ar gyfer y cyfryngau a chyfathrebu.

Mae'r cyhoeddiad diweddar am waharddiad arfaethedig ar rasio milgwn yng Nghymru wedi dod â sylw'r cyfryngau yn ôl ar filgwn am y tro. Mae hwn yn gyfle euraidd i ni ledaenu ein neges am fabwysiadu milgwn ymhellach a hyrwyddo'r cŵn anhygoel hyn i gynulleidfa llawer ehangach.

Gwyddom, dim ots faint o hyrwyddo a wnawn, ein bod yn dal i gael ein cyfyngu gan ddaearyddiaeth o ran cael mabwysiadwyr i ddod at ein cŵn. Bydd ein rhwydwaith maethu cenedlaethol arfaethedig yn chwarae rhan allweddol wrth oresgyn hyn a bydd yn cynyddu ein cyfradd mabwysiadu yn fawr.

Mae ein Cŵn Therapi achrededig yn ymweld â chartrefi gofal, prifysgolion ar adegau arholiadau a lleoliadau cymunedol eraill er mwyn i bobl elwa o ryngweithio â chŵn. Mae'r prosiect ar agor i bob brîd o gŵn. Dengys astudiaethau fod cŵn yn lleihau straen, pryder ac iselder yn ogystal â lleddfdu unigrwydd a gwella iechyd yn gyffredinol.

Mae'r prosiect wedi ehangu ac wedi'i ad-drefnu'n fawr yn ystod y flwyddyn a fu, ac ers mis Ionawr 2025 dechreuwyd casglu gwybodaeth fanwl. Mae'r ffigurau canlynol yn ymwneud â **dau fis cyntaf eleni***:

12
ymweliad

9
lleoliad

42
awr

450
o ddefnyddwyr
gwasaenaeth

*Bydd y data hwn ar gael ar gyfer y flwyddyn lawn o 2025-2026



Codi arian

Sylwer: Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfnod o 15 mis. I gymharu o flwyddyn i flwyddyn, gweler ein cyfrifon blynyddol.

£237,009.69

CYFANSWM INCWM (CODI ARIAN) GAN GYNNWYS RHODD CYMORTH, CYN COSTAU

£24,611.48

AELODAETH

£63,156.53

RHODDION

£14,559.00

GRANTIAU

£44,516.60

CODI ARIAN CYMUNEDOL (GAN GYNNWYS DIGWYDDIADAU, LOTERI A RAFFL)

£41,764.23

RHODDION MEWN EWYLLYS

£78,695.24

COSTAU (GAN GYNNWYS STAFFIO, DIGWYDDIADAU AC OFFER)

£158,314.45

CYFANSWM INCWM (CODI ARIAN) AR ÔL COSTAU



2024 oedd y flwyddyn gyntaf lawn i ni weithredu gydag aelod staff penodol ar gyfer codi arian cymunedol. Mae hyn wedi ein galluogi i ymgysylltu mwy ar lawr gwlad drwy ein digwyddiadau ein hunain, a thyfu maes allweddol i godi arian ac ymgysylltu â chymunedau.

Rydym yn ymdrechu i dyfu ein cynlluniau 'rhoi'n rheolaidd' (aelodaeth, noddi ci, a loteri) gan fod y rhain yn rhoi ffordd i gefnogwyr ymwneud â'r elusen a chodi arian ar yr un pryd am gost gymharol isel. Gwelwyd cynnydd cymharol fach yn 2024 yn y meysydd hyn, ond rydym wedi gosod y sylfaen ar gyfer ehangu llawer mwy yn y dyfodol.

I elusen sydd â dim ond dau aelod o staff codi arian, rydym yn parhau i berfformio ymhell y tu hwnt i'n disgwyliadau. Mae cefnogaeth ein gwirfoddolwyr codi arian anhygoel yn golygu y gallwn wneud y mwyaf o'r incwm a gynhyrchwn o'n gweithgarwch a chanolbwyntio amser staff ar reolaeth a chefnogaeth hanfodol.

Mae'r dasg sy'n wynebu ein tîm codi arian yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol. Wrth i chwyddiant gyrraedd uchafbwyntiau hanesyddol, dyma storm berffaith o dargedau'n cynyddu'n gyflym ynghyd â sylfaen rhoddwyr nad ydynt yn gallu rhoi cymaint i elusen. Rydym yn parhau i archwilio pob llwybr i sicrhau y gallwn gynyddu ein hincwm i gyd-fynd â chostau cynyddol.

Manwerthu

Sylwer: Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfnod o 15 mis. I gymharu o flwyddyn i flwyddyn, gweler ein cyfrifon blynyddol.

£636,265.92

CYFANSWM INCWM (MANWERTHU) GAN GYNNWYS CYMORTH RHODD, CYN COSTAU

£503,008.01

COSTAU (GAN GYNNWYS STAFF, RHENT, CYFLEUSTODAU, ARDRETHI ETC.)

£133,257.91

CYFANSWM INCWM (MANWERTHU) AR ÔL COSTAU

21%

MAINT YR ELW

SAFON Y SECTOR YW 20-40%



Cafwyd gostyngiad bach yn ein helw yn ystod y cyfnod hwn, er ei fod yn dal i fod o fewn yr ystod dderbyniol ar gyfer y sector manwerthu elusennol. Dylid nodi hefyd, gan fod yr adroddiad hwn yn cwmpasu cyfnod o 15 mis, ei fod yn cynnwys dau aeaf, sef y pwynt isaf yn y flwyddyn ar gyfer gwerthiannau manwerthu a hynny yn cael effaith ar y ganran drwyddi draw.

Roedd 2024 yn flwyddyn arbennig o anodd i'r stryd fawr yn gyffredinol. Ni fu twf yn nifer yr ymwelwyr i siopau ac yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ni chafwyd y cynnydd arferol yn y Pasg a'r Haf, neu mewn rhai achosion roeddynt hyd yn oed wedi gostwng. Mae manwerthu elusennol yn dibynnu ar faint o gwsmeriaid sy'n prynu ac os nad yw pobl yn dod i'r stryd fawr, ni allwn eu denu i'n siopau.

Er gwaethaf yr heriau hyn, gweithiodd ein staff manwerthu a'n gwirfoddolwyr yn anhygoel o galed i barhau i gynhyrchu incwm angenrheidiol iawn. Archwiliodd ein timau nid yn unig newidiadau y gallent eu gwneud i'w cynnig manwerthu, ond llwybrau incwm eraill y gallent fanteisio arnynt trwy'r siopau.

Wrth i 2025 fynd rhagddi, mae llawer o'n siopau bellach yn cynnal cystadlaethau rheolaidd a digwyddiadau codi arian eraill i wneud y gorau o'u rolau amlwg yn eu cymunedau eu hunain.

Efallai mai'r newid mwyaf sydd ar y gorwel serch hynny yw'r symud i fodel o werthu elusennol sy'n fwy hybrid o werthu mewn siopau ac ar-lein. Mae llwyfannau fel eBay a Vinted yn rhan gynyddol yn y maes hwn ac yn enwedig i gwsmeriaid iau, dyma'r man cyntaf y maent yn chwilio am ddillad ail-law yn aml. O ganlyniad, mae nifer o'n siopau eisoes wedi dechrau gwerthu o ddifrif ar y llwyfannau hyn ac yn gweld canlyniadau addawol.

Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer ehangu nifer ein siopau, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â nifer uchel o ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r costau sefydlog uchel sy'n gysylltiedig â manwerthu elusennol yn gwneud ehangu'n beryglus pan fo'n cyllid eisoes dan bwysau; gallai hyn gyfyngu ar ein twf manwerthu yn y dyfodol agos.

Datblygu sefydliadol

Mae ein helusen wedi newid yn aruthrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n parhau i newid.

Yn unol â'n nod strategol i leihau dibyniaeth yr elusen ar unigolion, mae llawer iawn o waith yn parhau y tu ôl i'r llenni i weithredu polisïau, safoni ffyrdd o weithio, a chofnodi gwybodaeth bwysig y gellid ei cholli pe bai pobl benodol yn gadael y sefydliad.


Pedair blynedd a 5 mis yn unig oedd hyd cyfartalog aros mewn swydd yn y DU yn 2023. Ni ddylem dybio felly y bydd staff nac ymddiriedolwyr yn aros gyda'n helusen am byth, mewn gwirionedd dylem dybio y bydd pobl yn mynd a dod yn eithaf rheolaidd ac felly rhaid cael polisïau a gweithdrefnau i hwyluso hyn er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar yr elusen.

Dechreuwyd y gwaith hwn fel rhan o'n Rhaglen Newid 2021-2022, ac mae bellach wedi'i amsugno i fusnes arferol o dan gyfarwyddyd ein Prif Swyddog Gweithredol. Ni fyddai llawer o hyn wedi bod yn bosibl heb greu rôl Prif Swyddog Gweithredol bwrpasol.

Mae cynnydd sydyn yng nghost cyflogi staff hefyd wedi cyflymu'r angen i ddod o hyd i effeithlonrwydd pellach yn y ffordd y caiff yr elusen ei rhedeg. Er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein tîm staff sy'n fach ond yn ymroddedig, rydym wedi buddsoddi ychydig mewn technolegau awtomeiddio i symleiddio pob math o brosesau. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel ymdrin ag aelodaethau, prosesu cyllid, cymorth ôl-fabwysiadu, cymorth gweinyddol, a mwy. Wrth i dechnoleg yn y maes hwn barhau i ddatblygu, yn enwedig yn sgil democrateiddio deallusrwydd artifisial, rydym yn parhau i edrych ar bob opsiwn i wneud yn siŵr ein bod yn cael y gwerth gorau am arian. Pan ydym yn cyflogi staff am dâl, ni ddylid gwastraffu eu hamser ar waith llafurus y gellid ei awtomeiddio am gost llawer is.

Mae ffactorau fel chwyddiant uchel a chynnydd i Yswiriant Gwladol cyflogwyr wedi golygu nad yw tasgau a allai fod wedi'u gwneud gan staff achlysurol neu ran-amser bellach yn gost-ffeithiol. Bydd y newidiadau i Yswiriant Gwladol yn unig yn costio dros £10,000 y flwyddyn i ni wrth fynd i mewn i flwyddyn ariannol 2025-26. O ganlyniad, rydym yn symud ein helusen i fod yn fodel llawer mwy hybrid gyda'n tîm bach o staff yn cefnogi tîm llawer mwy o wirfoddolwyr ar draws pob maes o'r elusen. Mae hyn yn cynnwys prosiectau fel ein 'Pencampwyr Codi Arian', wrth i'n gwaith codi arian fynd yn fwy o dan arweiniad gwirfoddolwyr, gyda chefnogaeth yn ôl yr angen gan nifer fach o staff cyflogedig. Yn yr un modd, rydym yn dilyn prosiect Cymru gyfan i sefydlu rhwydwaith maethu cenedlaethol sy'n cynnwys cydlynwyr rhanbarthol gwirfoddol, pob un ohonynt yn goruchwyllo nifer fach o gartrefi maeth gwirfoddol. Bydd y gwirfoddolwyr hyn yn rhyngweithio â'n tîm staff achub ac ailgartrefu, ac yn cael eu rheoli ganddynt, ond o ddydd i ddydd byddant yn gweithredu'n annibynnol.

Yr her fwyaf sy'n ein hwynebu nawr yw pennu sut y gallwn barhau i gyflawni ein hamcanion strategol am gost is mewn termau real. Mae ein timau codi arian a manwerthu yn gwneud gwaith rhagorol i gynyddu ein hincwm, ond mae cyflymder y costau cynyddol wedi cyrraedd uchafbwyntiau hanesyddol yn y cyfnod rhwng 2021 a 2025. O ystyried bod ein model gweithredu yn hynod ddarvoudus eisoes, os ydym am aros ar y trywydd iawn i gyflawni ein hamcanion strategol erbyn 2027 yna rhaid inni ganolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu ein hincwm yn sylweddol.





£938,608.21

CYFANSWM INCWM RHAG 23-CHWEF 25

£277,285.75


CYFANSWM INCWM AR ÔL COSTAU CODI ARIAN

£1,023,166.39



CYFANSWM GWARIANT RHAG 23-CHWEF 25

£441,463.14

CYFANSWM GWARIANT (DDIM YN CYNWYS CODI ARIAN)




Gan amlaf disgwylir gweld gostyngiadau tymhorol yn ein cyfrif cyfredol ar ôl y Nadolig, gan godi eto erbyn yr haf. Dengys y graff na ddaeth yr adferiad hwn fel y disgwyliwyd yn 2024 a chymerwyd mesurau i sefydlogi llif arian. Mae angen i ni nawr gynyddu incwm i adfer ein cronfeydd wrth gefn i lefelau cyn 2024.




Mae ein helusen yn anarferol gan fod cymaint o'n hincwm blynyddol yn dod o fanwerthu elusennol. Fel dull o godi arian, mae costau cysylltiedig uchel i fanwerthu elusennol sy'n golygu nad yw'r elw'n aml yn fwy na 30-40%. Fodd bynnag, yn y tymor hwy mae wedi bod yn ddibynadwy ac mae wedi yn fuddiol iawn i ni yn ystod y 10 mlynedd diwethaf o weithredu.

Wedi dweud hynny, mae ein dibyniaeth ar siopau elusennol yn ein gwneud yn fregus i anwadalwch y stryd fawr ac roedd 2024 yn flwyddyn anodd yn ariannol o ganlyniad i hynny. Er mwyn lliniaru'r risg hon, rydym wedi gwneud ymdrechion mawr i ehangu ein codi arian nad yw'n siopau/manwerthu, sef arallgyfeirio ein ffynonellau incwm. Mae'r newidiadau hyn yn dechrau dod i rym ac rydym wedi sefydlogi llif arian ar gyfer y dyfodol agos, serch hynny mae angen twf pellach os ydym am adfer ein cronfeydd wrth gefn i lefelau cyn 2024. Mae tueddiadau diweddar yn y cynnydd i'r isafswm cyflog hefyd yn dangos bod costau staff yn debygol o barhau i godi'n sylweddol, hyd yn oed gyda thîm o'r un maint neu'n llai. Mae angen cynllunio ymlaen llaw yn ofalus i ystyried hyn ac mae proses gadarn o gyllidebu blynyddol ar waith i alluogi hyn.

Rydym yn falch o fod yn sefydliad achub nad yw'n gosod unrhyw gyfyngiadau ar y driniaeth a roddwn i'n cŵn; fodd bynnag, mae cryn gost ariannol i hyn. **Roedd biliau milfeddygol yn unig yn cyfrif am dros 15% o'n costau gweithredu yn y cyfnod hwn**, gyda gwir gost y driniaeth yn llawer uwch o ystyried gofal staff a lletya mewn cenelau yn ystod y cyfnod adfer.



Yn sgil mwyfwy o bwysau ariannol, mae ymdrechion wedi'u gwneud ar draws yr elusen i dorri costau ymhellach a sicrhau'r gwerth gorau am arian. Rydym wedi cyrraedd pwynt lle rydym yn ddarbodus i'r eithaf ac **ni fyddai'n bosibl torri costau ymhellach heb leihau ansawdd gofal neu nifer y cŵn rydym yn eu helpu**, rhywbeth nad ydym yn barod i'w wneud. O ganlyniad, rydym yn gwybod y bydd angen i ni gynyddu ein hincwm yn gyflymach os ydym am barhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol yn ein gwaith. O ystyried bod cost cyflogi staff wedi codi cymaint yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac fel elusen sy'n cael ei harwain gan aelodau, rydym yn awyddus i ennyn ein haelodau ymhellach i ymwneud â chodi arian ac mae mentrau fel ein cynllun 'Pencampwyr Codi Arian' yn rhan allweddol o wneud hynny.



Mae ein cyfrifon blynyddol ar gyfer 2024-25 i'w gweld yn: www.greyhoundrescuewales.co.uk/annual-accounts


Sut gallwch chi helpu

Dyma bedair ffordd y gallwch chi wneud gwir wahaniaeth i filgwn a chŵn potsiwr drwy gydol 2025 a thu hwnt...



Rhoi'n rheolaidd

Boed yn ymuno â'n loteri, noddi un o'n cŵn anhygoel, neu drefnu rhodd fisol, cofiwch mai rhoddion rheolaidd yw'r hyn sy'n talu am achub, adsefydlu ac ailgartrefu ein cŵn.




Mabwysiadu ci

Mae milgwn a chŵn potsiwr yn anifeiliaid anwes anhygoel ac rydym yn credu bod yna filgi neu gi potsiwr allan yna sy'n enaid hoff gytûn i bawb! Cymerwch olwg ar ein gwefan i weld y cŵn sydd ar gael gennym ar hyn o bryd, darllenwch am ein proses fabwysiadu, a chysylltwch â ni ynghylch sut i gwrdd â'ch ffrind gorau newydd.



Codi arian

Os ydych chi'n frwd i gael eraill i gymryd rhan mewn cefnogi milgwn a chŵn potsiwr, beth am wirfoddoli i fod yn un o'n pencampwyr codi arian? Gallech chi helpu i drefnu digwyddiadau fel casglu ar y stryd, gwerthu cacennau, a phethau eraill i godi arian sydd mawr ei angen ar gyfer ein cŵn.



Maethu ci

Mae cartrefi maeth yn rhan hollbwysig o'n gwaith achub ac ailgartrefu. Mae ein gofalwyr maeth anhygoel yn rhoi modd i ni gael cartref dros dro i gŵn nad oes angen iddynt o reidrwydd fod yn ein cenel, gan ryddhau lle hanfodol i gŵn sydd angen eu hachub ar frys. Os credwch y gallech chi gynnig cartref dros dro i gi sydd angen un, cysylltwch â ni drwy ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth.